Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

—

Local Government and Housing Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

17 Rhagfyr 2021

Annwyl Huw,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Adeiladau

Fel y gwyddoch, trosglwyddwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Adeiladau i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Gwnaethom ysgrifennu atoch ar 13 Hydref yn amlinellu pryderon rhai Aelodau o'r Pwyllgor ynglŷn â defnydd cynyddol Llywodraeth Cymru o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Biliau'r DU, gan gynnwys yr un ar gyfer diogelwch adeiladu, i ddeddfu mewn meysydd datganoledig yn hytrach na defnyddio deddfwriaeth y Senedd. Cawsom dystiolaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ar yr Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn ein cyfarfod ar 17 Tachwedd.

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, ac ers i ni gyhoeddi ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Adeiladu, gwnaethom gytuno i ysgrifennu atoch i dynnu'ch sylw at bryderon rhai o'r Aelodau a gofyn ichi ystyried y pryderon hyn mewn perthynas â'ch gwaith ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

Mae'r rhan fwyaf o Aelodau'r Pwyllgor yn poeni am y gwaith craffu cyfyngedig y gellir ei wneud wrth ystyried Memoranda o'r fath o'u cymharu â deddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys y diffyg cyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae rhai Aelodau hefyd yn poeni bod cynsail yn cael ei greu ar gyfer defnyddio'r broses Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol i ddeddfu mewn meysydd datganoledig yn y Chweched Senedd.

Testun pryder i rai Aelodau hefyd oedd sylwadau'r Gweinidog fod problemau o ran adnoddau a chapasiti wedi cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â Bil diogelwch adeiladu yn y Senedd fel mater o frys. Os mai problemau adnoddau sy'n cyfyngu ar y gallu i gyflwyno Biliau yn y Senedd, hoffem ofyn beth sy'n cael ei wneud i geisio eu datrys ac a fu unrhyw gyfathrebu rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru ar y mater.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai eich Pwyllgor ystyried y pryderon hyn mewn unrhyw gyfathrebu â'r Llywydd a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'ch gwaith chi ar y defnydd o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

Yn gywir,

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.